General Optical Council

# Polisi Diogelu Corfforaethol

| |
|---|
| Statws y ddogfen: Terfynol |
| Fersiwn: 1 |
| Dyddiad cymeradwyo: 19 Mawrth 2025 |
| Yn effeithiol o: 19 Mawrth 2025 |
| Perchennog: Y Cyngor |
| Awdur: Pennaeth Staff a Swyddog Llywodraethu Gwybodaeth |
| Dyddiad adolygu nesaf wedi'i gynllunio: 19 Mawrth 2028 |

## 1. Datganiad Polisi

1.1. Mae'r Cyngor Optegol Cyffredinol (GOC) wedi ymrwymo i ddiogelu lles pobl agored i niwed, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) staff, cofrestreion, y cyhoedd a phobl ifanc. Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb i greu amgylchedd diogel sy'n hyrwyddo eu lles ac yn eu hamddiffyn rhag niwed. Mae'r polisi hwn yn amlinellu ein hymrwymiad i sicrhau cyfathrebu effeithiol a pharchus â'r unigolion hyn ac yn cynghori ar ein prosesau diogelu.

1.2. Fel rheoleiddiwr, mae gennym ddyletswydd orfodol i roi gwybod am unrhyw bryderon diogelu i'r awdurdodau priodol, gan gynnwys byrddau diogelu lleol neu'r heddlu, er mwyn sicrhau diogelwch a lles unigolion agored i niwed yn unol â gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol perthnasol.

## 2. Beth yw Diogelu a Phwy sydd mewn Perygl?

2.1. Diffinnir diogelu gan y Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC) fel “diogelu iechyd, lles a hawliau dynol person, a’u galluogi i fyw’n rhydd rhag niwed, cam-drin ac esgeulustod.

2.2. Mae pawb mewn perygl posibl o broblemau diogelu, ond mae rhai grwpiau o bobl yn arbennig o agored i niwed ac ecsbloetio.

## 3. Diben

3.1. Diben y polisi hwn yw:

- Sefydlu canllawiau clir ar gyfer cyfathrebu diogel ag unigolion agored i niwed.
- Darparu fframwaith ar gyfer adrodd ac ymateb i bryderon diogelu.
- Gwella ymwybyddiaeth a hyfforddiant staff i gefnogi oedolion a phobl ifanc agored i niwed yn effeithiol.

## 4. Ein Hymrwymiadau Diogelu

4.1. Ein hymrwymiadau diogelu yw:

- **Cymryd camau prydlon** i amddiffyn y cyhoedd lle mae pryder diogelu yn effeithio ar addasrwydd gweithiwr optegol proffesiynol i ymarfer.
- **Gweithio'n agos gyda sefydliadau eraill** i gyfeirio unigolion a allai fod mewn perygl o niwed.
- **Rhannu gwybodaeth** gyda gwasanaethau diogelu lleol, rheoleiddwyr eraill, y llywodraeth, ac asiantaethau eraill yn ôl yr angen priodol i amddiffyn unigolion rhag niwed.
- **Dilyn canllawiau cenedlaethol** ar gyfer diogelu ac arferion gorau.
- **Cysylltu â'r heddlu** heb oedi os oes risg uniongyrchol o niwed i unrhyw un sy'n gysylltiedig â'r pryder.
- **Hyfforddi'r holl staff** mewn ymwybyddiaeth o ddiogelu fel rhan o'u sesiwn sefydlu sy'n berthnasol i'w rôl.
- **Cefnogi staff** i wybod beth i'w wneud os ydynt yn derbyn gwybodaeth sy'n awgrymu problem diogelu neu'n gweld digwyddiad diogelu.

- **Dysgu o ddigwyddiadau'r gorffennol:** Bydd staff yn cymryd rhan mewn sesiynau dysgu myfyriol yn dilyn unrhyw ddigwyddiadau diogelu.

## 5. Egwyddorion Cyfathrebu Diogel

5.1. Wrth gyfathrebu ag unigolion agored i niwed, mae'n bwysig eich bod yn ymarfer egwyddorion cyfathrebu diogel fel y'u nodir gan y Swyddfa Gwella Iechyd ac Anghydraddoldebau:

- **Parch ac Urddas:** Dylai pob cyfathrebu fod yn barchus, gan drin unigolion ag urddas a thrugaredd.
- **Eglurder a Symlrwydd:** Defnyddio iaith glir a syml i sicrhau dealltwriaeth. Osgowch jargon neu dermau cymhleth.
- **Gwrando'n Weithredol:** Gwrando'n weithredol i ddilysu teimladau a phryderon unigolion, gan sicrhau eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu clywed a'u gwerthfawrogi.
- **Grymuso:** Annog unigolion i fynegi eu barn a gwneud dewisiadau gwybodus ynghylch eu hachosion a darparu cefnogaeth.

## 6. Rhannu Gwybodaeth a'r Saith Rheol Aur

6.1. Datblygwyd y Saith Rheol Aur ar gyfer Diogelu gan **Gymdeithas Llywodraeth Leol (CLlL)** yn y DU, yn bennaf fel rhan o ganllawiau ar gyfer ymarferwyr a sefydliadau gofal cymdeithasol. Fe'u cynlluniwyd i adlewyrchu arferion gorau wrth ddiogelu unigolion agored i niwed, gan sicrhau bod eu hawliau'n cael eu parchu wrth ddarparu'r amddiffyniadau angenrheidiol.

6.2. Cyfeirir at yr egwyddorion hyn yn aml mewn amrywiol raglenni a fframweithiau hyfforddi diogelu, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud ag amddiffyn plant a diogelu oedolion.

(1) Cofiwch nad yw GDPR y DU, Deddf Diogelu Data 2018 a chyfreithiau hawliau dynol yn rhwystrau i rannu gwybodaeth â chyfiawnhad, ond yn darparu fframwaith i sicrhau bod gwybodaeth bersonol am unigolion byw yn cael ei rhannu'n briodol. Am ragor o wybodaeth, cyfeiriwch at ein Polisi Rhyddid Gwybodaeth a'n Polisi Diogelu Data, sydd ar wefan y GOC yn yr adran "Amdanom ni".

(2) Byddwch yn agored ac yn onest gyda'r unigolyn (a/neu eu teulu/gofalwr/cynrychiolydd lle bo'n briodol) o'r cychwyn cyntaf ynglŷn â pham, beth, sut, a gyda phwy y bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu, neu y gellid ei rhannu, a cheisio eu cytundeb, oni bai ei bod yn anniogel neu'n amhriodol gwneud hynny.

(3) Ceisiwch gyngor gan eich tîm Llywodraethu Gwybodaeth os oes gennych unrhyw amheuaeth ynghylch rhannu'r wybodaeth dan sylw, heb ddatgelu hunaniaeth yr unigolyn lle bo'n bosibl.

(4) Lle bo modd, rhannwch wybodaeth gyda chydsyniad a, lle bo modd, parchwch ddymuniadau'r rhai nad ydynt yn cydsynio i gael eu gwybodaeth wedi'i rhannu. O dan GDPR y DU a Deddf Diogelu Data

2018 gallwch rannu gwybodaeth heb gydsyniad os, yn eich barn chi, mae sail gyfreithlon i wneud hynny, fel lle gallai diogelwch fod mewn perygl. Bydd angen i chi seilio'ch barn ar ffeithiau'r achos. Pan fyddwch chi'n rhannu neu'n gofyn am wybodaeth bersonol gan rywun, byddwch yn glir ynglŷn â'r sail rydych chi'n gwneud hynny arni. Lle nad oes gennych gydsyniad, byddwch yn ymwybodol y gallai unigolyn beidio â disgwyl i wybodaeth gael ei rhannu.

(5) Ystyriwch ddiogelwch a lles. Seiliwch eich penderfyniadau rhannu gwybodaeth ar ystyriaethau diogelwch a lles yr unigolyn ac eraill a allai gael eu heffeithio gan eu gweithredoedd.

(6) Gwnewch yn siŵr bod yr wybodaeth rydych chi'n ei rhannu yn angenrheidiol at y diben rydych chi'n ei rhannu ar ei gyfer, ei bod yn cael ei rhannu gyda'r unigolion hynny sydd angen ei chael yn unig, ei bod yn gywir ac yn gyfredol, ei bod yn cael ei rhannu'n amserol, a'i bod yn cael ei rhannu'n ddiogel.

(7) Cadwch gofnod o'ch penderfyniad a'r rhesymau drosto – boed i rannu gwybodaeth ai peidio. Os penderfynwch rannu, yna cofnodwch yr hyn rydych wedi'i rannu, gyda phwy, ac at ba ddiben.

## 7. Rôlau a Chyfrifoldebau

7.1. Rhaid i **bob aelod o staff**:

- Ymgyfarwyddo â'r polisi hwn a'i weithdrefnau.
- Adrodd am unrhyw bryderon diogelu i'r Panel Diogelu ar unwaith.
- Cymryd rhan mewn hyfforddiant rheolaidd ar arferion diogelu a chyfathrebu.
- Deall eu dyletswyddau a'u cyfyngiadau diogelu.
- Rhaid rhoi gwybod ar unwaith i'r adran Pobl a Diwylliant am unrhyw faterion diogelu sy'n ymwneud ag aelod o staff er mwyn sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd. Gall enghreifftiau o bryderon diogelu gynnwys amheuon o gam-drin, bwlio, aflonyddu, camfanteisio rhywiol a meithrin perthynas amhriodol. Mae'n hanfodol bod y materion hyn yn cael eu datrys yn gyflym ac yn unol â diogelu lles yr holl unigolion dan sylw.

7.2. Mae gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn offer hanfodol a ddefnyddir i sicrhau diogelwch a lles unigolion agored i niwed. Efallai y bydd gofyn i rai aelodau staff i fynd drwy’r gwiriadau hyn i wirio eu bod yn addas i weithio gyda phobl agored i niwed. Mae'r broses hon yn helpu i nodi unrhyw ymddygiad troseddol yn y gorffennol a allai beri risg, a thrwy hynny ddiogelu'r rhai y maent yn dod ar eu traws. Drwy weithredu gwiriadau DBS, mae'r GOC yn dangos ein hymrwymiad i gynnal amgylchedd diogel a hyrwyddo ymddiriedaeth o fewn y gymuned.

## 8. Hyfforddiant ac Ymwybyddiaeth

8.1. Bydd yr holl staff perthnasol yn derbyn hyfforddiant ar bolisïau diogelu a chyfathrebu effeithiol ag unigolion agored i niwed. Gallai hyfforddiant gynnwys:

- Adnabod arwyddion o gam-drin a niwed posibl.

- Cyfrifoldebau ynghylch diogelu.
- Arferion gorau ar gyfer cyfathrebu effeithiol ac empathig.

## 9. Panel Diogelu

9.1. Bydd y GOC yn gweithredu panel diogelu a fydd yn chwarae rhan hanfodol wrth hyrwyddo diogelwch a lles unigolion, yn enwedig y rhai a allai fod yn agored i niwed.

9.2. Mae prif gyfrifoldebau'r panel yn cynnwys:

- adolygu pryderon diogelu
- sicrhau bod mesurau priodol yn cael eu cymryd i amddiffyn unigolion rhag niwed.
- darparu canllawiau ar ddatblygu polisïau a hyfforddiant sy'n gysylltiedig ag arferion diogelu.

## 10. Monitro ac Adolygu

10.1. Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu bob tair blynedd neu yn ôl yr angen i adlewyrchu newidiadau mewn deddfwriaeth neu weithdrefnau sefydliadol. Bydd adborth staff yn cael ei ddefnyddio i wella arferion diogelu yn barhaus.

10.2. **Dysgu o ddigwyddiadau yn y gorffennol:** Bydd y panel yn myfyrio ar wersi a ddysgwyd yn dilyn unrhyw ddigwyddiadau diogelu, gan sicrhau bod unrhyw fylchau neu welliannau mewn gweithdrefnau yn cael eu nodi a mynd i'r afael â hwy. Gall hyn gynnwys adolygu astudiaethau achos, trafod gwersi allweddol o bryderon neu ddigwyddiadau blaenorol, ac ymgorffori adborth mewn rhaglenni hyfforddi yn y dyfodol.

## 11. Gwybodaeth Gyswllt

12. Os oes gennych unrhyw bryderon neu ymholiadau am ddiogelu, cysylltwch â'r panel diogelu ar safeguarding@optical.org.

## 13. Gweithredu Polisi

13.1. Mae'r polisi hwn yn weithredol o 19 Mawrth 2025 a bydd yn cael ei gyfathrebu i bob gweithiwr a rhanddeiliad perthnasol. Mae cydymffurfio â'r polisi hwn yn orfodol, a gall diffyg cydymffurfio arwain at gamau disgyblu.

13.2. Dylid darllen y polisi hwn ar y cyd â'r nodyn proses fewnol ar gyfer holl staff y GOC.

## 14. Camau Gweithredu a Chymorth

| Pryder | Manylion |
|---|---|
| Cam-drin plant | • Os nad yw'r risg yn un uniongyrchol, rhowch wybod am gam-drin plant i'ch cyngor lleol. Gallwch ddefnyddio chwiliwr gwasanaethau GOV.UK i ddod o hyd i'r cyswllt priodol. |

| | |
|---|---|
| | • Am gyngor ar ddifrifoldeb cam-drin, cysylltwch â llinell gymorth yr NSPCC ar 0808 800 5000.<br>• Gall plant a phobl ifanc gysylltu â Childline ar-lein neu ffonio 0800 1111.<br>• Yr Alban: https://www.gov.scot/policies/child-protection/<br>• Cymru: https://www.nspcc.org.uk/keeping-children-safe/reporting-abuse/reporting-concerns-about-a-child/<br>• Gogledd Iwerddon: https://www.nspcc.org.uk/keeping-children-safe/reporting-abuse/reporting-concerns-about-a-child/<br>• Cyfeiriwch at LADO yn dibynnu ar yr awdurdod lleol lle mae'r drosedd honedig wedi digwydd -https://national-lado-network.co.uk/the-role-of-the-lado-local-authority-designated-officer/ |
| Cam-drin oedolyn | • Mae adrodd yn dibynnu ar ble mae'r oedolyn yn byw a phwy sy'n gofalu amdano.<br>• I oedolion, rhowch wybod am gam-drin i'ch cyngor lleol gan ddefnyddio'r chwiliwr cod post.<br>• I unigolion oedrannus, cysylltwch ag Hourglass ar 0808 808 8141 (ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener, 09:00 i 17:00).<br>• Am gymorth trais domestig, cysylltwch â Llinell Gymorth Cam-drin Domestig Genedlaethol ar 0808 2000 247.<br>• Am gefnogaeth emosiynol, cysylltwch â'r Samariaid ar 116 123.<br>• Yr Alban https://www.gov.scot/policies/adult-support-and-protection/<br>• Cymru: https://www.llyw.cymru/diogeluoedolion<br>• Gogledd Iwerddon: https://www.health-ni.gov.uk/articles/adult-safeguarding |
| Rhoi gwybod am aflonyddu a throseddau | • Os ydych chi mewn perygl neu angen sylw meddygol brys, ffoniwch 999 neu |

| | |
|---|---|
| | ewch i'ch adran Damweiniau ac Achosion Brys agosaf. Ar gyfer sefyllfaoedd nad ydynt yn argyfwng, ffoniwch 101.<br>• Ar gyfer treisio neu ymosodiad rhywiol, ceisiwch gyngor gan ganolfan atgyfeirio ymosodiadau rhywiol drwy GOV.UK.<br>• Adroddwch am droseddau casineb ar-lein drwy True Vision.<br>• Os ydych chi wedi bod yn ddioddefwr neu wedi gweld unrhyw drosedd, gallwch gael cymorth arbenigol ar wefan gwybodaeth i ddioddefwyr a thystion y llywodraeth.<br>• Os bydd aflonyddu'n digwydd yn y gwaith, rhowch wybod amdano i'ch rheolwr, Adnoddau Dynol, neu undeb llafur. Am gyngor annibynnol, cysylltwch â'r Gwasanaeth Cynghori a Chymorth Cydraddoldeb ar 0808 800 0082.<br>• Os ydych chi'n fenyw sy'n profi aflonyddu rhywiol yn y gwaith, gallwch gael cyngor cyfreithiol cyflogaeth am ddim gan linell gymorth Hawliau Menywod ar 020 7490 0152 (oriau agor cyfyngedig). |
| Ffynonellau eraill o gefnogaeth | • https://www.anncrafttrust.org/help-advice/friend-relative/<br>• https://www.ncvo.org.uk/help-and-guidance/safeguarding/steps-saferorganisation/recognise-respond-and-report/#/recognising-signs-of-harm-andabuse<br>• https://learning.nspcc.org.uk/child-abuse-and-neglect<br>• Cysylltwch â ni - Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol |
| Adnoddau GOC | Cysylltwch â'r tîm Pobl a Diwylliant am ragor o wybodaeth. |
| I staff | Rhaglen Cymorth i Weithwyr<br><br>Cymorthwyr Cyntaf Iechyd Meddwl |